
# Stori'r Nadolig



www.instantdisplay.co.uk

# Yr Angel yn ymweld â Mair



Tua 2000 o flynyddoedd yn nôl , dwedodd yr angel Gabriel wrth Mair ei bod yn mynd i gael baban arbennig a'i enw fydd Iesu.

www.instantdisplay.co.uk

# Teithio i Fethlehem



Roedd yn rhaid i Mair a Joseff deithio i Fethlehem er mwyn cofrestri. Roedd y baban ar fin cael ei eni ond cychwynodd y ddau ar y daith hir.

www.instantdisplay.co.uk

# Dim lle yn y llety



Erbyn i Mair a Joseff gyrraedd Bethlehem, roedd bob llety yn llawn. Roedd Mair wedi blino'n lan ar ôl siwrne hir. O'r diwedd fe gawson nhw le i orffwys mewn stabal.

# Ganwyd y baban Iesu



Yn y nos, yn y stabal, cafodd y baban Iesu ei eni. Lapiodd Mair ef mewn dillad cynnes a'i osod i orwedd yn y preseb.

# Y Bugeiliaid a'r Angylion



Ar y bryniau y tu allan i Fethlehem roedd bugeiliaid yn gwarchod eu defaid. Yn sydyn ymddangosodd angel gan gyhoeddi neges o lawenydd mawr fod mab Duw wedi cael ei eni. Rhuthrodd y bugeiliaid i Fethlehem i weld y baban Iesu.

www.instantdisplay.co.uk

# Y Tri Gŵr Doeth



Yn bell, bell i ffwrdd, gwelodd y doethion seren newydd yn yr awyr. Arwydd oedd hwn fod brenin newydd wedi ei eni. Dilynodd y tri y seren er mwyn gweld y brenin newydd.

www.instantdisplay.co.uk

# Brenin Herod



O'r diwedd cyrhaeddodd y doethion dinas Jerwsalem. Yn y palas roedd y brenin Herod mewn penbleth pan ofynnwyd iddo os oedd Brenin yr Iddewon yno. Danfonwyd y doethion i chwilio am y brenin newydd.

www.instantdisplay.co.uk

# Rhoddion y Doethion



Teithiodd y tri i Fethlehem. Plygodd y doethion i addoli'r brenin newydd. Rhoddodd y doethion rhoddion o aur, thus a myrr i'r baban Iesu.

www.instantdisplay.co.uk

# Y Doethion yn adre



Y noson honno,
cafodd y tri gwr doeth
freuddwyd.
Ymddangosodd angel
i'w rhybuddio fod y
Brenin Herod am ladd
y baban Iesu.
Teithiodd y doethion
adre ffordd arall.

www.instantdisplay.co.uk

# Teithio i'r Aifft



Mewn breuddwyd cafodd Joseff neges gan yr angel. Dwedodd wrtho i fynd a'r baban Iesu i'r Aifft er mwyn dianc o Herod. I ffwrdd â nhw gan wybod fod Duw yn gofalu amdanyn nhw.

www.instantdisplay.co.uk